Cofnodion Cyfarfod 8 Medi 2015 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
YN BRESENNOL		
Ken Brown	Pat Jones	
Daniel Williams	Nerys John	
Louise Hughes	George Smith	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Siân Gwenllïan - Cynghorydd Sir	
1.0	**SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**	
1.1	Croesawodd y Cynghorydd Ken Brown Cadeirydd y Cyngor yr aelodau i gyfarfod mis Gorffennaf ac estynnwyd croeso arbennig i Rhys Roberts Swyddog Llwybr Arfordirol Cymru yng Ngwynedd. Cyflwynodd Rhys Roberts hanes cefndirol y llwybr; dywedodd hefyd sut mae'r prosiect wedi ei ariannu. Ar hyn o bryd mae gwaith sicrhau cytundebau yn mynd yn ei flaen. Nid yw'n bosib rhoi amserlen ar gyfer gorffen y gwaith cytundebol oherwydd bod cymaint o berchnogion tir ynghlwm a'r mater. Dywedodd y Swyddog bydd yn barod ymateb i unrhyw ymholiadau'r Cyngor fel byddant yn codi; bydd yn parhau i gyfathrebu a'r Cyngor er mwyn sicrhau bod unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r datblygiadau yn gyfredol. Diolchodd y Cadeirydd i Rhys Roberts am ei barodrwydd i anerchu'r cyfarfod. Cyflwynodd Ken Brown adroddiad byr a'r materion oedd wedi codi'r mis hwn. Dywedodd nad oedd angen bellach iddo gyfarfod a'r Pwyllgor Bethel a Y Felinheli a'r materion ffordd osgoi Caernarfon a Bontnewydd - Clerc i hysbysebu Sïon Jones o hyn. Bydd Caban y Felinheli (Man's Shed) yn derbyn sylw Dafydd Einion (Gwynedd). **Ymddiheuriadau**: Mair Bebb Jones, Sarah Riley.	
2.0	**ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD Y SIR**	
	Gweler atodiad 1	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
3.1	Cyflwynodd Ken Brown ffurflen datganiad buddiant personol ar eitem 12.1.	
4.0	**SEDDI GWAG**	
	Dywedodd y Clerc bod dau gais am y seddi gwag wedi dod i law a bod y ddau yn cyflawni gofynion y swydd. Roedd y Cyngor yn gytûn i	

	gyfethol y ddau sef Gruff John a Peter John Simpson.	
5.0	**YMDDISWYDDIAD**	
	Cyhoeddwyd bod llythyr ymddiswyddiad y Cynghorydd Siân Gwenllïan wedi ei dderbyn. Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei hymdrechion dros y blynyddoedd ar y Cyngor a'i fod yn sicr bydd yn parhau i roi'r pentref yn gyntaf fel Cynghorydd Sir. **Penderfynodd y Cyngor byddai yn gwahodd y Cynghorydd Sir yn fisol i'r cyfarfod er mwyn iddi alluogi rhoi gwybodaeth ddiweddaraf ar faterion sirol o fewn y pentref. Bydd yr eitem yma yn ymddangos ar yr agenda yn fisol.**	
6.0	**COFNODION**	
6.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol 14eg o Orffennaf 2015. **Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd fel rhai cywir a'u harwyddo.**	
7.0	**MATERION YN CODI**	
7.1	**Lightsource** - Dywedodd y Clerc bod angen i'r Cyngor brysuro'n mlaen a'r contract bellach. Mae Cyngor Tref Caernarfon wedi symud ymlaen. Mae'r contract gyda'r Cynghorydd Iestyn Harris ar hyn o bryd. Y Clerc i wneud cysylltiad â'r Cynghorydd.	**CLERC**
8.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**	
8.1	Cyflwynodd y Cynghorydd Daniel Williams y diweddaraf ar faterion y neuadd gan gynnwys, y drws tân, Y To, a'r gofeb. Roedd y Cyngor yn gytûn i symud ymlaen i gynnwys "variation" ar y drwydded adloniant i alluogi dangos ffilmiau. Roedd y Cyngor yn gytûn i symud ymlaen i waned gwaith paentio o fewn y neuadd. Derbyniwyd Bwrdd Hysbyseb oddi wrth Wŷl y Felin.	
9.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL**	
6.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Gorffennaf a Mis Awst.	
10.0	**GOHEBIAETH**	
10.1	**Hyfforddiant Cod Ymddygiad** - Hyfforddiant di-dâl i'w gael gan Wynedd i Gynghorwyr Cymuned.	
10.2	**Cysgodfan ger y Nant -** dywedodd y Clerc bod Cyngor Gwynedd angen cael gwybod os oedd y Cyngor yn Barod i dderbyn cyfrifoldeb am y Cysgodfan bws ar ôl iddo gael ei osod gan Gwmni Watkin Jones. **Penderfynodd y Cyngor i gymryd cyfrifoldeb am y**	

	gysgodfan bws.	**CLERC**
10.3	**Objecting to planning applications (Gwynedd) –** information only.	
11.0	**ADRODDIAD Y CLOC**	
8.1	Cadarnhawyd bod y ffurflen gais at Cadw yn gywir - Y Clerc i hysbysu'r pensaer o hyn er mwyn iddo symud ymlaen i gyflwyno'r cais i Cadw.	**CLERC**
12.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
12.1	C15/0715/20/TC - cais am dystysgrif gyfreithlon ar gyfer defnyddio estyniad i eiddo fel uned breswyl barhaol - Nyth Clyd 41, Y Wern, Y Felinheli, LL56 4TX - **DIM SYLWADAU**	
12.2	C15/0807/20/CR - cais ôl weithredol i gadw pontŵn o fewn y cei - Menai Marina, Hen Gei Llechi, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4JN - **DIM SYLWADAU**	
12.3	C15/082/20/LL - cais ôl weithredol am adeilad allanol i'w ddefnyddio i defnydd masnachol a phreswyl - Pant Erys, Beach Road, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4RQ - **DIM SYLWADAU**	
12.4	C15/0435/20/LL - cais i newid defnydd tŷ 3 ystafell wely i ddau fflat 2 ystafell wely ynghyd a dymchwel modurdy a chreu 3 llecyn parcio a chadw'r caniatâd cynllunio rhif C08A/0420/20/LL ar gyfer codi tŷ ychwanegol ar y safle - Bron Menai Helen Terrace, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SZ - **DIM SYLWADAU**	
12.5	C15/0760/20/LL - codi estyniadau i greu fflat hunan cynhaliol ychwanegol - Laurence House, Stad Tafarngrisiau, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4SQ - **DIM GWRTHWYNEBIAD**	
13.0	**ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT**	
	Dim i'w adrodd	
14.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
	Dim i'w adrodd	
15.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
15.1	Cyflwynodd Y Cynghorydd George Smith ei sylwadau ar ei archwiliad blynyddol o'r llwybrau cyhoeddus. Diolchodd i'w gyd gynghorwyr am ei helpu a'r gwaith.	
15.2	Cafwyd trafodaeth ynglŷn â lleoliad yr hysbysfwrdd a'r map teithiau o amgylch y pentref.	
16.0	**CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL**	
14.1	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod y Clwb Hwylio wedi penderfynu adeiladu wal; bydd yn cysylltu gyda Gwynedd ynglŷn â'r	**DW**

	mater.	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:50 yn yr hwyr.	
Llofnod:	Dyddiad:	